

Teitl y Ddogfen: Polisi Tegwch, Cynhwysiant a Hawliau Dynol	1 o 6	Dyddiad Cymeradwyo: 11 Mawrth 2025
Cyfeirnod: 083		Dyddiad Adolygu Nesaf: 11 Mawrth 2028
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 27 March 2025
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Pobl a Diwylliant		

Cyfeirnod: UHB 083 Rhif y Fersiwn:4	Dyddiad Adolygu Nesaf: 11/03/2028 Cyfeirnod Blaenorol yr Ymddiriedolaeth/BILL: T/290
------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------

POLISI TEGWCH, CYNHWYSIANT A HAWLIAU DYNOL

Datganiad Polisi

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i ddarparu gofal iechyd teg, cynhwysol a pherson-ganolog wrth feithrin amgylchedd cefnogol a chynhwysol i'r holl gleifion, staff a rhanddeiliaid. Rydym yn credu bod pob unigolyn - boed yn ceisio gofal neu'n gweithio yn ein sefydliad - yn haeddu cael ei drin gydag urddas, parch a thegwch.

Mae'r polisi hwn yn cefnogi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Llunio Ein Diwylliant Cynhwysol 2024-2028, sy'n amlinellu ein huchelgais i greu sefydliad mwy cynhwysol, amrywiol a theg. Mae hefyd yn cyd-fynd â strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol y Bwrdd Iechyd, sydd â'r nod o wella iechyd a lles y boblogaeth trwy sicrhau mynediad cyfartal at ofal iechyd, canolbwyntio ar atal, a mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd. Yn ogystal, mae ein Cynllun Pobl a Diwylliant yn atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn trwy sicrhau ein bod yn meithrin gweithlu amrywiol, cynhwysol, yn blaenoriaethu lles a datblygiad staff, a chreu diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i gyfrannu at ein nodau cyffredin.

Trwy ymgorffori tegwch, cynhwysiant a hawliau dynol ym mhopeth a wnawn, rydym yn anelu at ddarparu gofal tosturiol, o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion amrywiol y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, wrth greu gweithle lle gall yr holl staff ffynnu.

Ymrwymiad Polisi

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i annog tegwch, cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol ymhlith ein holl weithlu, gwirfoddolwyr a chontractwyr a dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon. Y nod yw i'n sefydliad fod yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol o bob rhan o'r gymdeithas a'n cleifion, ac i bob gweithiwr deimlo eu bod yn cael eu parchu, bod nhw eu hunain ac yn gallu rhoi o'u gorau. Mae'r sefydliad - wrth ddarparu nwyddau a/neu wasanaethau a/neu gyfleusterau - hefyd wedi ymrwmo i fod yn erbyn gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth cleifion neu'r cyhoedd.

Teitl y Ddogfen: Polisi Tegwch, Cynhwysiant a Hawliau Dynol	2 o 6	Dyddiad Cymeradwyo: 11 Mawrth 2025
Cyfeirnod: 083		Dyddiad Adolygu Nesaf: 11 Mawrth 2028
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 27 March 2025
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Pobl a Diwylliant		

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i'r egwyddorion canlynol, a fydd yn llywio ein harferion gofal cleifion a gweithle:

- **Mynediad Teg a Pheidio â Gwahaniaethu:** Byddwn yn sicrhau bod pob unigolyn - waeth beth fo'u hil, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, rhyw, oedran, crefydd, hunaniaeth rhywedd, neu unrhyw nodwedd arall - yn cael mynediad cyfartal i'n gwasanaethau a'n cyfleoedd. Ni fyddwn yn goddef gwahaniaethu, aflonyddu, neu allgáu mewn gofal iechyd neu gyflogaeth.
- **Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Person ac sy'n Ddiwylliannol Gymwys:** Byddwn yn darparu gofal sy'n parhau cefndiroedd diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol amrywiol ein cleifion, gan sicrhau bod pob unigolyn yn derbyn gofal priodol a sensitif. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi staff i gynnig gwasanaethau sy'n ymateb i ddewisiadau ac anghenion unigol ein cleifion.
- **Y Gymraeg a Hygyrchedd Cyfathrebu:** Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn hefyd yn darparu cymorth cyfathrebu, gan gynnwys gwasanaethau dehongli a fformatau hygyrch, i sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion cleifion a staff sydd ag anableddau neu rwystrau iaith, yn unol â Safonau Cymru Gyfan ar gyfer dulliau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrau (y Safonau Colli Defnydd Synhwyrau).
- **Hawliau Dynol ac Urddas:** Byddwn yn cynnal egwyddorion Deddf Hawliau Dynol 1998, gan sicrhau bod hawliau ac urddas pob claf a staff yn cael eu parhau. Bydd penderfyniadau gofal yn blaenoriaethu ymreolaeth a chydsyniad gwybodus cleifion, a bydd yr holl staff yn gweithio mewn ffordd sy'n cynnal urddas y rhai yn ein gofal.
- **Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb Iechyd** Yn unol â'r strategaeth *Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol*, byddwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a lleihau gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwella mynediad at ofal i grwpiau ymylol ac sy'n agored i niwed, a chynnig gwasanaethau sy'n hyrwyddo tegwch a lles ar draws y boblogaeth.
- **Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol:** Rydym wedi ymrwmo i greu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Byddwn yn cynnig mynediad cyfartal i gyfleoedd ar gyfer recriwtio, datblygu a dilyniant gyrfu, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n wynebu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan sicrhau amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol.
- **Dim Goddefgarwch i Wahaniaethu ac Aflonyddu:** Ni fyddwn yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio, neu aflonyddu o fewn ein sefydliad. Mae polisiâu a gweithdrefnau clir ar waith i ymdrin â digwyddiadau o'r fath, gan sicrhau amgylchedd diogel i'r holl staff, cleifion ac ymwelwyr.

Teitl y Ddogfen: Polisi Tegwch, Cynhwysiant a Hawliau Dynol	3 o 6	Dyddiad Cymeradwyo: 11 Mawrth 2025
Cyfeirnod: 083		Dyddiad Adolygu Nesaf: 11 Mawrth 2028
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 27 Mawrth 2025
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Pobl a Diwylliant		

- **Hyfforddiant a Datblygiad Parhaus:** Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant parhaus ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol, yn unol â'n *Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Llunio Diwylliant Cynhwysol 2024-2028*. Bydd yr hyfforddiant hwn yn arfogi staff i gynnig gofal diwylliannol cymwys a meithrin diwylliant gweithle cynhwysol.
- **Ymgysylltu ac Atebolrwydd:** Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda chleifion, staff a grwpiau cymunedol i sicrhau bod ein gwasanaethau a'n harferion yn y gweithle yn adlewyrchu anghenion y rhai rydym yn eu gwasanaethu. Bydd adborth ac ymgysylltu rheolaidd yn llywio ein hymdrechion, a byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd wrth gyflawni amcanion cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol, fel yr amlinellir yn ein cynlluniau strategol.

Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig

Mae'r Polisi hwn a'r Gweithdrefnau ategol yn disgrifio'r canlynol mewn perthynas â thegwch, cynhwysiant a hawliau dynol:

- Nod a bwriad y polisi
- Y cyd-destun deddfwriaethol
- Nodweddion gwarchoddedig ac ystyriaethau hunaniaeth gymdeithasol eraill
- Fframwaith polisi ar gyfer methu â chydymffurfio
- Y gofyniad am Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd
- Cysylltiadau â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Llunio Ein Diwylliant Cynhwysol 2024-2028
- Cysylltiadau â'n Cynllun Pobl a Diwylliant
- Gweithdrefn Gymorth Traws ac Anneuaidd i Weithwyr
- Gweithdrefn Diogelwch Rhywiol yn y Gwaith

Dogfennau Ategol Eraill

Mae tegwch a chynhwysiant yn rhan annatod o waith y Bwrdd Iechyd. Mae cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol yn effeithio ar ein holl bolisiâu, ond y polisiâu, cynlluniau a strategaethau perthnasol allweddol yw:

- [Polisi Gweithlu Addasadwy a gweithdrefnau cysylltiedig](#)
- [Polisi Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth ac Absenoldeb a Rennir](#)
Maternity, Adoption, Paternity and Shared Leave policy
- [Gweithdrefn Rheoli Straen ac Iechyd Meddwl yn y Gweithle](#)
- [Polisi Dysgu, Addysg a Datblygu](#)
- [Polisi Recriwtio a Dethol](#)
- [Gweithdrefn Asesu Risg Mamolaeth](#)

Teitl y Ddogfen: Polisi Tegwch, Cynhwysiant a Hawliau Dynol	4 o 6	Dyddiad Cymeradwyo: 11 Mawrth 2025
Cyfeirnod: 083		Dyddiad Adolygu Nesaf: 11 Mawrth 2028
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 27 March 2025
Cymeradwyd gan: Pwyllgor Pobl a Diwylliant		

- [Canllawiau ar gyfuno bwydo ar y fron a dychwelyd i'r gwaith](#)
- [Pecyn Cymorth AEGI](#)
- [Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith](#)
- [Gweithdrefn Gweithio'n Hyblyg](#)
- [Polisi Parchu a Datrys](#)
- [Gweithdrefn Gymorth Traws ac Anneuaidd i Weithwyr](#)
- [Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Llunio Ein Diwylliant Cynhwysol 2024-2028](#)
- [Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol](#)
- [Cynllun Pobl a Diwylliant](#)
- [GIG Cymru: Gweithio i Wella – Canllawiau ar Godi Pryderon](#)
- [Cod Ymddygiad Staff GIG Cymru](#)

Mae'r canlynol yn fframweithiau deddfwriaethol a chenedlaethol perthnasol allweddol i'w hystyried ochr yn ochr â'r polisi:

- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)
- [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
- [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)
- [Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus \(DCSC\)](#)
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)
- [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#)
- [Cynllun Gweithredu LHDTTC+ i Gymru](#)
- [Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)
- [Fframwaith cenedlaethol Mwy na Geiriau](#)
- [Fframwaith Codi Llais yn Ddiogel](#)

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bawb sy'n dod i gysylltiad â'r Bwrdd Iechyd, boed fel cleifion, staff, gwirfoddolwyr, myfyrwyr, ymwelwyr, contractwyr neu eraill yn ein holl leoliadau.

Teitl y Ddogfen: Polisi Tegwch, Cynhwysiant a Hawliau Dynol	5 o 6	Dyddiad Cymeradwyo: 11 Mawrth 2025
Cyfeirnod: 083		Dyddiad Adolygu Nesaf: 11 Mawrth 2028
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 27 Mawrth 2025
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Pobl a Diwylliant		

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (AEGI) wedi'i gwblhau a nodwyd effaith gadarnhaol. Mae camau allweddol wedi'u nodi a gellir dod o hyd i'r rhain yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Llunio Ein Diwylliant Cynhwysol 2024-2028.
Cymeradwywyd y Polisi gan	Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Grŵp sydd ag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau a ysgrifennwyd i egluro sut y bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu	Is-grŵp Polisi Cyflogaeth
Swyddog Gweithredol neu Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant
Ymwadiad	
Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi bod, sicrhewch mai'r fersiwn yr ydych yn ei defnyddio yw'r un fwyaf diweddar naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu Gyfarwyddiaeth Llywodraethu .	

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau			
Rhif y Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo'r Adolygiad	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o Ddiwygiadau
B1	Dd/B	Anhysbys	Polisi newydd
B1	Rhag 2006	Anhysbys	Polisi wedi'i dwyn ymlaen. Newidiwyd y cyfeirnod rhif o 198 i 290 oherwydd dyblygu. Ychwanegwyd Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran).
B2	Medi 2007	Tach 2007	Wedi'i ail-deitlo a'i ddiwygio i fersiwn 2
BIP 1	Medi 2009	01/11/11	Wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu deddfwriaeth newydd

Teitl y Ddogfen: Polisi Tegwch, Cynhwysiant a Hawliau Dynol	6 o 6	Dyddiad Cymeradwyo: 11 Mawrth 2025
Cyfeirnod: 083		Dyddiad Adolygu Nesaf: 11 Mawrth 2028
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 27 Mawrth 2025
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Pobl a Diwylliant		

BIP 2	Medi 2014	Hydref 2014	Wedi'i ddiweddarau fel rhan o adolygiad
3	Ionawr 2021		Mae hon yn ddogfen ddiwygiedig sy'n diweddarau iaith ac yn ystyried: i) newid teitl y polisi i gynnwys Cynhwysiant drwyddi draw ii) y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd iii) Safonau'r Gymraeg iv) y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd - Gofalu am Gynhwysiant 2020-2024
4	Mawrth 2025	Mawrth 2025	Ail-ysgrifennwyd y polisi'n sylweddol i gyd-fynd â strategaeth gyfredol y sefydliad. Mae'r adrannau canlynol wedi'u hailysgrifennu: <ul style="list-style-type: none"> • Datganiad Polisi • Ymrwymiad Polisi <p>Mae'r adrannau 'Gweithdrefnau Ategol a Rheolaethau Ysgrifenedig' a 'Dogfennau Ategol Eraill' wedi'u diweddarau a'u hychwanegu atynt er mwyn adlewyrchu polisiau, gweithdrefnau, cynlluniau gweithredu a strategaethau lleol a chenedlaethol cyfredol.</p>